

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA and remote attendance on Dydd Mawrth, 3ydd Ionawr, 2023 at 10.30 am

Councillors Present

County Councillor Sue Riley (Chairman)
County Councillor John Crook (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler,
,David Jones, Jayne McKenna, Maureen Powell,
Jackie Strong

Also in attendance County Councillors:
Simon Howarth, Richard John, Frances Taylor,
Tony Easson, Penny Jones, Jane Lucas,
Laura Wright, Ann Webb, Tony Kear and Jan
Butler

Tudor Thomas, Cabinet Member for Social Care,
Safeguarding and Accessible Health Services,
Sara Burch, Cabinet Member for Inclusive and
Active Communities; Mary Ann Brocklesby,
Leader, Catherine Fookes, Cabinet Member for
Equalities and Engagement , Angela Sandles,
Cabinet Member for Equalities and Engagement

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a
Llywodraethiant
Paul Matthews, Prif Weithredwr
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Matt Phillips, Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro
Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant
Nicholas Keyse, Estates Development Manager
Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio

APOLOGIES: County Councillors Maria Stevens and Christopher Edwards (sent representative)

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2. Cyflwyniad y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig aelodau o'r cyhoedd oedd wedi mynychu i gymryd rhan yn y Fforwm Agored i'r Cyhoedd. Gofynnodd i'r Rheolwr Craffu esbonio'r broses galw i mewn fyddai'n cael ei dilyn yn y cyfarfod.

Y Cyd-destun ar gyfer y Galw i Mewn:

Trefnwyd y cyfarfod i drafod penderfyniad a wnaed ond nad oedd wedi dod i rym. Ar 30 Tachwedd gwnaed penderfyniad i ddadgomisiynu'r eiddo ar Stryd Tudor fel canolfan ar gyfer gwasanaethau cymorth dydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu yng ngogledd Sir Fynwy. Nid oedd y penderfyniad wedi effeithio ar ddarpariaeth barhaus y gwasanaeth a fu'n gweithredu drwy gydol y pandemig. Bu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau anabledl dysgu yn ei le ers 2014, gan geisio cefnogi pobl gydag anabledl dysgu i ddilyn eu diddordebau

a'u dymuniadau eu hunain o fewn lleoliadau cymunedol. Roedd hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl yn defnyddio Canolfan Ddydd Stryd Tudor a gostyngiad graddol mewn oriau agor cyn iddo gau dros dro yn 2020. Cynhelir adolygiad ehangach o'r gwasanaeth, a phenderfynwyd nad oedd yr adeilad ar Stryd Tudor bellach yn addas i'r diben ac y gellid ei werthu.

Galwyd y penderfyniad i mewn i gael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Pobl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor am y rhesymau dilynol:

- “Ni ifu unrhyw graffu ac ni chafodd ei gynnwys yn y cynllunyydd”.
- “Mae'r adeilad ar orlifdir”.
- “Ni fu unrhyw ymgynghoriad gyda defnyddwyr/grwpiau. Defnyddir y safle ar gyfer defnyddwyr/grwpiau ac mae ganddynt anghenion arbennig difrifol”.

Esboniodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn clywed gan aelodau o'r cyhoedd cyn dechrau'r broses galw-i-mewn. Er fod y broses graffu fel arfer yn caniatáu 15 munud ar gyfer fforwm Agored i'r Cyhoedd, oherwydd y diddordeb sylfaenol mewn siarad yn y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd y byddid yn ymestyn y Fforwm Agored i'r Cyhoedd i alluogi unrhyw un oedd wedi hysbysu'r Cyngor ymlaen llaw am eu dymuniad i siarad yn y cyfarfod yn gallu gwneud hynny.

3. Fforwm Agored Cyhoeddus 15 Munud – Mae modd ymestyn hyn ar ddisgresiwn y pwyllgor.

Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael i'r cyhoedd ac mae'n rhoi sylwadau a fynegwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn y cyfarfod. Yn ychwanegol, caiff adroddiad manwl ei baratoi yn dilyn y cyfarfod craffu i roi adroddiad llawn o'r cyfraniadau cyhoeddus sylweddol i'r cyfarfod, i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 19 Ionawr 2023, [Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Pobl, Penderfyniad Galw-i-Mewn Canolfan Ddydd Tudor.pdf \(monmouthshire.gov.uk\)](#) . Cafodd y sylwadau dilynol eu mynegi gan aelodau o'r cyhoedd. Ni all y cofnodion roi sylwadau ar gywirdeb unrhyw un o'r datganiadau, a gafodd eu crynhoi dan benawdau er mwyn hwlustod cyfeirio.

Yr hyn a awgrymodd pobl fod Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn ei gynnig iddynt

-

- Dywedodd pobl fod Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn cynnig amgylchedd canolog, diogel a thwym ar gyfer pobl fregus gydag anableddau dysgu i gymdeithasu gyda ffrindiau a gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Dywedodd pobl fod Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn golygu llawer mwy nag adeilad ffisegol iddynt – mae'n gweithredu fel hyb, lle i go iddo ar gyfer pobl o bob cefndir i fagu eu hyder, dysgu sgiliau bywyd ac ennill cymwysterau. Clywodd Aelodau y teimlid fod Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn fan lle roedd cyfeillgarwch ystyrllon yn cael ei ffurfio rhwng defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned yn ehangach, oedd yn mynychu eu digwyddiadau codi arian. Mae hefyd yn rhoi seibiant ar gyfer gofalywr o gyfrifoldebau gofalu 24/7.
- Dywedodd pobl wrth y pwyllgor craffu fod lleoliad canolog Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn y Fenni yn rhwydd iddynt ei gyrraedd a bod ganddo'r cyfleusterau addas, tebyg i wely newid a chyfleusterau toiled i'r anabl oedd yn gweddu llawer o bobl gydag anableddau dysgu, ond nid rhai gydag anghenion cymhleth dybryd. Dywedodd rhai pobl wrth y pwyllgor na fedrai eu perthnasau ddefnyddio'r ganolfan oherwydd nad yw'n darparu ar gyfer anghenion pobl gydag anableddau difrifol, yn arbennig rhai sydd angen hydrotherapi, hoistau nenfwd a gofodau synhwyraidd, a gaiff eu darparu mewn cyfleusterau a adeiladwyd yn bwrpasol tebyg i'r safle yng Nghwmbrân.
- Siaradodd pobl sut yr oedd 'Fy Niwrnod, Fy Mywyd', pan oedd yn gweithredu yng Nghanolfan Ddydd Stryd Tudor cyn y pandemig, wedi galluogi pobl i wneud cynlluniau personol a dewis pa weithgareddau yr hoffent eu gwneud. Soniodd pobl am

bwysigrwydd cael dewis gwasanaethau dydd a/neu fod yn y gymuned, gan esbonio nad yw gweithgareddau yn y gymuned ar ben eu hunain yn cefnogi adeiladu cyfeillgarwch yn yr un ffordd. Dywedwyd mai'r cyfan roeddent ei eisiauoedd gweld eu ffrindiau mewn amgylchedd diogel a thwym oedd â'r cyfleusterau priodol ar gyfer eu hanghenion.

Sut y dywedodd pobl eu bod yn teimlo am gau'r Ganolfan Ddydd

- Dywedodd rhai pobl sut y teimlent eu bod wedi colli'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn arfer eu gwneud, lle roeddent yn medru ennill sgiliau bywyd gwerthfawr a chymwysterau oherwydd fod y ganolfan wedi cau. Dywedodd gofalwr wrth aelodau nad yw gweithgareddau yn y gymuned yn rhoi fawr o ysgogiad i bobl gydag anableddau dysgu a bod cau'r ganolfan wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl. Esboniodd un person nad oedd bron byth yn cwrdd gyda ffrindiau ers y cau, os nad oedd cyfleuster My Mates, ac anaml oedd hynny yn digwydd. Dywedodd rhai pobl fod cau'r ganolfan wedi gwaethygu eu hunigrwydd ac ar wahanrwydd.
- Un o'r rhesymau a esboniwyd i'r pwyllgor craffu pam fod pobl gydag anableddau difrifol yn ei chael yn anodd cael mynediad i weithgareddau yn y gymuned yw bod y cyfleusterau toiled mewn caffes a siopau yn anaddas. Awgrymwyd fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i anghenion pobl.
- Awgrymodd un person fod Parc Mardy (fel canolfan amgen) yn darparu gwasanaeth gwahanol a'i fod yn anodd ei gyrraedd. Dywedodd pobl wrth aelodau y byddai cau Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn barhaol yn "cael effaith negyddol sylweddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff cymorth".

Yr hyn y dywedodd y cyfranwyr i'r Fforwm Agored i'r Cyhoedd fod defnyddwyr gwasanaeth ei angen

- Awgrymodd rhywun fod diffyg darpariaeth canolfan ddydd yng ngogledd y Sir a bod angen i'r Cyngor roi mwy o ystyriaeth i'w benderfyniad ac ystyried sut y gellid gwella gwasanaethau, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth lunio'r cynnig. Awgrymodd rhywun y cafodd y penderfyniad ei seilio ar gost ac na ddylid bod wedi wedi ei gymryd cyn gorffen adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau. Dywedwyd nad oedd y broses ymgynghori wedi rhoi unrhyw fanylion pa ddarpariaeth y gellid ei chynnig yn lle'r hyn a gollir.
- Er nad cylch gorchwyl Canolfan Ddydd Stryd Tudor yw darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl ac nad oedd pobl yn cael eu cyfeirio i'r ganolfan ar gyfer cymorth iechyd meddwl, awgrymodd un person fod pobl sydd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn ogystal â phobl gydag anableddau dysgu yn mynychu'r ganolfan a'i fod yn helpu i'w gwneud yn llai ynysig a magu eu hyder.
- Siaradodd pobl am yr angen am gyfleusterau neilltuol a chanolfan ganolog y gellid ei hymestyn i'r gymuned ehangach i alluogi pobl i ddod ynghyd, rhannu profiadau, dysgu a gwneud ffrindiau.
- Yn nhermau pobl gydag anableddau dysgu yn medru talu am gynorthwywyr personol a gofalwyr yn lle defnyddio gwasanaethau dydd, dywedodd rhywun mai bwriad cyllidebau personol oedd rhoi dewis i bobl, nid disodli gwasanaethau. Teimlai rhai pobl fod cau Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn dileu gwasanaeth, er fod model 'Fy Niwrnod Fy Mywyd' yn parhau mewn ffordd wahanol. Esboniodd un person sut na all pobl sydd angen cymorth un i un gael mynediad i lawer o weithgareddau 'My Mates' sy'n tueddu i gynnwys ymweliadau i fwytai, y sinema neu gyngherddau pop. Awgrymwyd fod y rhain

yn rhu ddrud ar gyfer y rhan fwyaf o bobl ac yn tueddu i fod gyda'r nos gan fwyaf, na fyddai'n addas i rai.

- Soniodd aelod arall o'r cyhoedd am ddiffyg cyfleoedd yn y gymuned yn Sir Fynwy, yn arbennig yn y Fenni, ar gyfer pobl gydag anghenion cymhleth iawn na fedrir darparu ar eu cyfer mewn caffes neu leoedd yn y gymuned. Cadarnhaodd un person nad oedd Canolfan Ddydd Stryd Tudor yn addas ar gyfer pobl gydag anghenion cymhleth dybryd a thynnu sylw at ddiffyg darpariaeth seibiant yn y sir ar gyfer pobl gydag anghenion cymhleth. Siaradodd pobl am yr angen am gefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael anghenion addysgol arbennig a throsglwyddo i fyd oedolion, sy'n symud neilltuol o anodd.

Materion ehangach a godwyd gan y cyhoedd

- Awgrymwyd fod y penderfyniad yn rhoi blaenoriaeth i anghenion un grŵp bregus o bobl (pobl ddigartref) dros anghenion grŵp arall (pobl gydag anabledau dysgu). Awgrymwyd nad oedd y bwriad i symud ymlaen â'r cais cynllunio i osgoi newidiadau deddfwriaethol yn ymwneud a llifogydd yn gydnaws gydag athroniaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, na'i nod o 'gynnwys pobl fel partneriaid cyfartal wrth wneud penderfyniadau'. Awgrymwyd bod angen ymgysylltu ar-lein am y penderfyniad.
- Codwyd pryderon am y broses ymgynghori a ph'un ai oedd y lythyr at ddefnyddwyr gwasanaeth fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol wedi ei ysgrifennu yn ysbryd Deddf Cydraddoldeb 2010 yng nghyswllt hygyrchedd. Awgrymwyd fod diffyg ymgysylltu ar-lein am y penderfyniad, gan weithio yn erbyn yr ymdeimlad o ddialog agored a thryloyw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyhoedd am gymryd rhan, a dywedodd bod y pwyllgor yn croesawu ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau. Dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn dechrau trafod y mater.

4. Galw i Mewn: Adeilad Stryd Tudor.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a alwodd y penderfyniad i mewn i gyflwyno eu rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn, fel y nodwyd yn flaenorol.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr 'Aelodau Galw i Mewn'

Mynegodd Aelodau a alwodd y penderfyniad i fewn eu pryderon yng nghyswllt diffyg craffu cyn-penderfyniad. Fe wnaethant gwestiynu ansawdd a chadernid yr asesiad integredig ar effaith, a mynegi eu pryderon am ba mor drwyadl oedd y broses ymgynghori a gynhaliwyd gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am gwestiynau a sylwadau.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor

Siaradodd Aelodau yn faith am eu sylwadau ar y mater a dweud nad oedd y cyhoedd yn ystyried Canolfan Ddydd Stryd Tudor fel dim ond adeilad neu safle, ond fel gymuned, a bod pobl yn teimlo fod y gymuned yn cael ei thynnu oddi arnynt. Soniodd aelod o'r pwyllgor sut mae canolfannau dydd yn rhoi llawer mwy na dim ond adeilad a dweud fod anghenion pobl yn llawer pwysicach na chyflawni targedau tai neu wireddu budd ariannol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n crynhoi canlyniad ffurfiol y cyfarfod galw-i-mewn.

Casgliad y Cadeirydd:

- Yng nghyswllt y materion penodol a godwyd wrth alw'r penderfyniad i mewn, derbyniwyd y dylid bod wedi craffu ymlaen llaw ar y penderfyniad gan roi esboniad pam nad oedd y penderfyniad wedi ei gynnwys ar Flaengynllunydd y Cabinet a'r Cyngor a gafodd y pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol.
- Cadarnhawyd hefyd nad oedd yr adeilad ar orlifdir.
- Derbyniwyd ymhellach na fu ymgynghoriad effeithiol ar y penderfyniad i gau Canolfan Ddydd Stryd Tudor.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod tri dewis ar gael iddynt, sef:

- 1) Derbyn y penderfyniad
- 2) Cyfeirio'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet i'w ailystyried (gyda rhesymau)
- 3) Cyfeirio'r penderfyniad at y Cyngor llawn

Gofynnodd y Pwyllgor am bleidlais wedi'i chofnodi ar yr opsiynau uchod, a'r canlyniad oedd:

Cynghorydd Rachel Buckler:	Cyfeirio i'r Cyngor llawn
Cynghorydd Maureen Powell:	Cyfeirio i'r Cyngor llawn
Cynghorydd Jane Lucas (dros C Edwards):	Cyfeirio i'r Cyngor llawn
Cynghorydd Jayne Mckenna:	Cyfeirio i'r Cyngor llawn
Cynghorydd John Crook:	Cyfeirio i'r Cyngor llawn
Cynghorydd Tony Easson:	Cyfeirio i'r Aelod Cabinet
Cynghorydd Jackie Strong:	Cyfeirio i'r Aelod Cabinet
Cynghorydd David Jones:	Cyfeirio i'r Cyngor llawn
Cynghorydd Sue Riley:	Cyfeirio i'r Aelod Cabinet

Cytunwyd i gyfeirio'r penderfyniad i'w ail-ystyried, yn dilyn pleidlais wedi'i chofnodi.

Yn dilyn y bleidlais wedi'i chofnodi, cytunodd y mwyafrif i gyfeirio'r penderfyniad i'r cyngor llawn, gan roi'r rheswm dilynol:

Mae angen llawer mwy eglurdeb ar ddarpariaeth y dyfodol. Mae angen ymgysylltu cadarn gyda defnyddwyr gwasanaeth a dylid cynnal craffu cyn-penderfyniad trwyadl cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

5. Cyfarfod Nesaf

Cadarnhau y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Ionawr 2023.

The meeting ended at **Time Not Specified**